# Y BIGWN

CYF. 33 RHIF 3 Mawrth 2021 *Papur Bro Dinbych* *Rhad ac am ddim ar-lein*

## Gair gan y Golygydd

Bob tro bydda i'n golygu Y Bigwn mi fydda i'n edrych yn ôl i weld pa berlau oedd yn fy ngolygyddol cynt! Gorffennaf 2020 oedd hynny ac roedd pethau'n dechrau llacio fymryn a'r golau ym mhen draw'r twnel yn sbecian arnom ni. Ond cawsom ein twyllo ganddo ac aeth y twnel yn dywyllach a'r daith at normalrwydd yn hirach.

Dyma ni bellach dri mis i mewn i 2021 ac rwy'n ysgrifennu fy mhwt golygyddol ar bnawn Sul braf. Buom am ein tro dyddiol efo Meg y ci bore 'ma ac roedd hi'n fore gogonedd-us. Roedd adar bach y perthi yn canu o'i hochr hi - amser priodas yr adar yn ôl ffrind – eirlysiau a briallu yn y clodd-iau a'r llwyni'n blaguro. Roedd hwyliau da ar bawb a wel-som ar ein taith hefyd, fel petai'r cwbl yn darogan dyddiau gwell i ddod. A dichon y dônt yn sgil y brechlyn sy'n brysur gael ei ddosbarthu i bawb. Gwn fod llawer ohonoch wedi'i gael yn barod ac fe ddaw fy nhro i cyn bo hir.

A be' wedyn? Beth sydd flaenaf ar eich rhestr? Cael gweld teulu a ffrindiau yn y cnawd mae'n debyg. Mae Zoom a'i debyg wedi bod yn fendith, does dim gwadu, ond mae mwy i berthynas na'r hyn gewch chi ar sgrîn. Drwy Zoom a'i debyg y gwnawn bopeth bellach. Dyma ydy ein Sul, gŵyl a gwaith!

Ond ara deg y mae dal iâr a brechlyn neu beidio allwn ni ddim mynd yn ôl i'r hyn a fu mewn un naid. Blwyddyn union yn ôl ar ddydd Gŵyl Dewi y bûm i mewn cyfarfod torfol ddiwethaf, mewn digwyddiad hwyliog gan Bryn Williams ym Mhorth Eirias i godi arian at Eisteddfod yr Urdd. Dyna i chi newid byd. Roedd y lle dan ei sang, y bwyd yn fendigedig, yr arian yn llifo i goffrau'r Eisteddfod, côr yn ein diddanu a sgwrs ddifyr efo hwn a'r llall. Oes angen dweud mwy?

"Byddwch lawen a hyfryd a gwnewch y pethau bychain a welsoch ac a glywsoch gennyf fi" ydy pregeth fawr Dewi Sant a pha gwell amser i gofio'r bregeth fawr yma na rwan. Gallwn oll geisio bod yn **llawen** ac yn **hyfryd** ac mae llawer wedi bod yn **gwneud y pethau bychain** sydd wedi hwyluso bywydau pobl yn ystod y pandemig yma. Mae ein dyled yn fawr iddyn nhw ac yn arbennig i'r gweithwyr allweddol sydd wedi mynd yr ail filltir mewn adeg anodd iawn. Arwydd bychan o'n gwerthfawrogiad yma yn Ninbych yw'r fainc liwgar o flaen siop Tŷ Gobaith.

Diolch bawb a chadwch yn ddiogel.

*Angharad Rhys*

## Calendr Cyhoeddi

| Mis | Derbyn | Cyhoeddi | Golygydd |
|---|---|---|---|
| Ebrill | 19/03/21 | 02/04/21 | Dyfrig Berry |
| Mai | 23/04/21 | 07/05/21 | Erfyl Williams |
| Mehefin | 21/05/21 | 04/06/21 | Ceredig Gwynn |

Pob cyfraniad ar gyfer Mis Ebrill i'w anfon at e-bost Y Bigwn gwybod@ybigwn.cymru erbyn 19/03/2021



*Y Fainc Enfys*




*Plac y Fainc Enfys*

# PIGION <PIGION< PIGION< PIGION<

## Pythefnos Masnach Deg 22 Chwefror – 7 Mawrth 2021.

Yn ystod y bythefnos yma, mae Masnach Deg yn tynnu sylw at yr heriau cynyddol mae ffermwyr a gweithiwyr yn y cymunedau y mae Masnach Deg yn gweithio gyda hwy yn eu hwynebu oherwydd y newid yn yr hinsawdd

https://fairtradewales.com/we/fairtrade-fortnight-2021-is-here

Be' am drio'r rysait yma Cacen Siocled a Tahini

https://fairtradewales.com/we/fairtrade-chocolate-and-tahini-cake-recipe

## Cymorth Cristnogol

Rydym i gyd yn ddiolchgar am ein brechlyn. Beth am ddiolch mewn ffordd ymarferol a chyfrannu at waith Cymorth Cristnogol? Mae gwaith ein partneriaid o gefnogi'r rhai sy'n dal i ddisgwyl cael eu brechu'n parhau. Dyma hanes Shima

https://www.christianaid.org.uk/give/ways-donate/give-thanks-your-coronavirus-vaccine

Gallwch gyfranu i Cymorth Cristnogol Pwyllgor Dinbych ar lein - Banc - HSBC UK, Dinbych Cod - 40-19-12 Cyfrif - 01012118

Enw - Cymorth Cristnogol - Cangen Dinbych

Mae rhifyn diweddaraf o gylchgrawn Cymorth Cristnogol allan – ac ar gael yn ddigidol! Darllenwch, gweddïwch, a rhannwch ag eraill. https://issuu.com/christian_aid/docs/christian_aid_magazine_spring_2021?fbclid=IwAR2ho0sVNfJtGzaxDXLhXuQLBGwPzREXm7qyoBZVJavtGVhdXHJVdvTiWBA

## Lansio cynllun gwirfoddoli digidol i helpu pobl i fynd ar y We

Mae Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych, Cymunedau Digidol Cymru a Cyngor Sir Ddinbych wedi dod ynghyd i lansio cynllun gwirfoddolwyr digidol yn y Sir i gynorthwyo'r trigolion sydd angen cymorth gyda thechnoleg digidol. Mae technoleg yn gallu newid bywyd, yn gallu helpu pobl i fod yn fwy annibynol ac yn hwb i iechyd meddwl ac mae'r cyfeillion digidol wedi cael eu recriwitio i gynnig cymorth angenrheidiol iddynt dros y ffon

Fe fydd y Cyfeillion Digidol yn dechrau cynorthwyo pobl dros y ffôn fis nesaf. Un o'r gwirfoddolwyr yw Keith Jones: "Mae yna berygl fod rhai pobl yn cael eu gadael ar ôl. Mae hyn wedi dod yn fwy amlwg yn ystod y pandemig. Dwi eisiau defnyddio fy sgiliau i gynorthwyo".

Os ydych yn gwybod am berthynas neu ffrind sydd wedi derbyn tabled neu ffôn clyfar dros y Nadolig ac angen cymorth ar sut i'w ddefnyddio, mae'r cynllun hwn yn awyddus i glywed gennych er mwyn eich paru gyda chyfaill digidol.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch gyda Gareth Jones ar 01824 702441 neu ebostio office@dvsc.co.uk

## Dementia Gyfeillgar Dinbych

Mae Pwyllgor Dementia Gyfeillgar Dinbych wedi prynu Alexa i gartrefi gofal lleol sy'n cefnogi pobol sy'n byw gyda dementia.

Gall cerddoriaeth, yn enwedig canu ddatgloi atgofion ac yn help i gyfathrebu. Mwy am hyn yn y rhifyn nesa'.

## Cynhadledd Alzheimer's Society Cymru

Mae Alzheimer's Society Cymru wedi ail-drefnu cynhadledd 2020 ar gyfer yr 17eg-y 18fed o Fawrth, 2021. Mi fydd yn ddigwydd ar-lein a dyma'r linc i gofrestru.

https://www.alzheimers.org.uk/dementia-professionals/conferences-and-events/cymru-cynhadledd-2021

## Tŷ gwydr ar gael am ddim i gartref da

8tr x 6tr (mewn hen bres)

Mewn cyflwr reit dda ond angen ychydig o sylw ac ambell ddarn newydd o wydr.

Wedi'i dynnu'n ddarnau ond angen ei gasglu.

Cysylltwch ag Aled ar 01745 813259 neu 07771747193





## Mae'r gyfres radio Hawl i Holi yn ei hôl!

Er nad oes cyfle i deithio i gymunedau Cymru ar hyn o bryd, mae'r rhaglen Hawl i Holi yn ei hôl. Dewi Llwyd sy'n cyflwyno, herio a chadw trefn ar 4 panelydd. Gan ddarlledu yn fisol ar Radio Cymru rydym yn awyddus iawn i glywed gan gyfranwyr o bob rhan o'r wlad. Os oes gennych chi gwestiwn neu bwnc yr ydych chi am i'n panelwyr ymateb iddo byddem wrth ein boddau'n clywed gennych.

Bydd y rhaglenni nesaf ar Fawrth 4ydd, Ebrill 1af ac Ebrill 29ain am 6 yr hwyr.

I gysylltu mae modd ffonio 03703 500700 yn ystod oriau gwaith neu e bostio hawliholi@bbc.co.uk




Garej Ffowndri
Am wasanaeth cyflawn i'ch modur
01745 812482



CYFREITHWYR SOLICITORS
GUTHRIE JONES & JONES
Osian Roberts LLB . Gwenllian Huws LLB . Lois Griffiths LLB LLM
29 FFORDD RHUTHUN, DINBYCH LL16 3EH
Ffôn : 01745 814 817 E-bost: dinbych@guthriejj.co.uk
Gwefan: www.guthriejj.co.uk
Gwasanaeth Cyfreithiol cyflawn yn y Gymraeg

# Y Gornel Goginio

## Bara Brith

### Cynhwysion

175g o gyrens

175g o syltana

225g siwgr muscovado golau

300ml o de gryf

275g o flawd codi

1 wy (wedi chwisgio)



*Bara Brith*

### Dull

1. Rhowch y ffrwythau a'r siwgr mewn bowlen a arllwyswch y te poeth dros y ffrwythau a'i adael i fwydo dros nos.

2. Cynheswch dymheredd y popty i 150 ºc. Irwch y tin torth a'i leinio gyda phapur parchment.

3. Arllwyswch y blawd a'r wy i'r gymysgedd ffrwythau. Cymysgwch y cyfan yn ofalus.

4. Arllwyswch y gymysgedd i'r tin.

5. Coginiwch y Bara Brith am 1 ½.


SJ CYFREITHWYR SwayneJohnson SOLICITORS

Yn cyflwyno Amser i Siarad ....

**Ewyllysiau, Pwerau Atwrneiaeth a Costau Gofal**

NID OES ANGEN ARCHEBU LLE

**Ymunwch â'n harbenigwyr am gyflwyniad addysgiadol rhad ac am ddim ar y materion pwysig hyn gyda'r cyfle i holi ein cyfreithwyr profiadol**

**Neuadd Gymunedol Llys Erw Rhuthun**
*10yb–11yb*
**2il Mai**
4ydd Gorffennaf
**5ed Medi**

**Canolfan Gymunedol Eirianfa Factory Place, Dinbych**
*10yb-11yb*
20fed Mehefin
**18fed Gorffennaf**
15fed Awst
**19eg Medi**

**Canolfan Gymunedol Awelon Ffordd yr Ysgol, Rhuthun**
*10yb–11yb*
6ed Mehefin
**1af Awst**

Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag aelod o'n Tîm Cleientiaid Preifat ar **01824 703833 (Rhuthun) neu 01745 818263 (Dinbych)**

**Byddwn yn cynnig gostyngiad unigryw i'r rhai sy'n mynychu**

www.swaynejohnson.com cyfraith@swaynejohnson.com

**CEIR CLWYDIAN**

Os ydych yn chwilio am
*brisiau cystadleuol
* dewis heb ei ail
* gwasanaeth cyfeillgar a phroffesiynol

yna, galwch i'n gweld ar-
FFORDD RHYL, DINBYCH
neu ffoniwch
01745 816720 / 07900555009

Daniel Morris

**CIGYDD LLEOL**

01745 812585

info@dmorrisbutchers.co.uk
www.dmorrisbutchers.co.uk

**124 Stryd y Dyffryn, Dinbych, LL16 3BS**

# Cornel Y Plant

Roedd Gŵyl Dewi ar Fawrth 1af. Dyma ychydig o weithgareddau yn ymwneud a hynny i chi roi cynnig arnynt. Hefyd mae gennym weithgareddau Sul y Mamau ar gyfer Mawrth 14eg.

- Chwilair Gŵyl Dewi
- Baneri Gwisg Gymreig
- Cennin Pedr
- Sul y Mamau - Tusw o flodau
- Sul y Mamau - Taflen Lliwio





# Dydd Gŵyl Dewi

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| d | c | e | r | t | y | u | i | o | w | c |
| c | e | n | h | i | n | e | n | u | ff | b |
| y | n | w | b | s | o | r | m | j | r | a |
| m | n | dd | i | ph | ff | w | c | j | o | s |
| r | i | ll | l | s | m | n | b | g | g | i |
| u | n | b | s | c | a | w | l | f | h | l |
| p | p | b | s | a | t | n | g | d | ng | c |
| w | e | l | g | g | w | g | t | d | ph | ô |
| a | d | e | t | y | ff | ch | m | n | o | r |
| t | r | a | dd | o | d | i | a | d | u | o |
| g | o | r | y | m | d | a | i | th | i | p |



Dewi Sant
cennin Pedr
cenhinen
traddodiad
gorymdaith

ffrog
cawl
Cymru
côr



# Dydd Gŵyl Dewi

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| d | c | e | r | t | y | u | i | o | w | c |
| c | e | n | h | i | n | e | n | u | ff | b |
| y | n | w | b | s | o | r | m | j | r | a |
| m | n | dd | i | ph | ff | w | c | j | o | s |
| r | i | ll | l | s | m | n | b | g | g | i |
| u | n | b | s | c | a | w | l | f | h | l |
| p | p | b | s | a | t | n | g | d | ng | c |
| w | e | l | g | g | w | g | t | d | ph | ô |
| a | d | e | t | y | ff | ch | m | n | o | r |
| t | r | a | dd | o | d | i | a | d | u | o |
| g | o | r | y | m | d | a | i | th | i | p |

Dewi Sant
cennin Pedr
cenhinen
traddodiad
gorymdaith

ffrog
cawl
Cymru
côr

# Cyfarwyddiadau Creu Baneri Bach Gwisg Gymreig

## Bydd arnoch angen:

Llygaid gwgli

Templed het gwisg Gymreig

Templed wyneb

Cardfwrdd neu bapur i ddylunio gwallt

Siswrn

Glud

Paent lliw croen


Paent coch

Paent du

Lliw paent o'ch dewis chi i greu gwallt

Brwshys paent





# Cyfarwyddiadau Creu Baneri Bach Gwisg Gymreig


## Cyfarwyddiadau:

1. Un gyntaf, argraffwch y templedi het ac wyneb.
2. Nesaf, torrwch y templedi allan, (efallai y bydd angen help oedolyn).
3. Paentiwch yr het yn ddu gan adael y ffril ar y gwaelod yn wyn.
4. Defnyddiwch baent liw croen i baentio'r wyneb.
5. Wedyn, gadewch i'r paent sychu.
6. Ewch ati i greu'r wyneb gan ludo'r llygaid gwgli, tynnwch lun ceg a thrwyn a defnyddiwch eich bysedd i ddotio bochau coch gan ddefnyddio paent coch.
7. Dyluniwch wallt gan ddefnyddio'r papur neu'r cardfwrdd. Dewiswch ar liw'r gwallt a'i baentio. (Does dim rhaid cynnwys gwallt).
8. Gludwch y gwallt a'r het ar y wyneb.
9. Tyllwch dwll ar ben yr het gan ddefnyddio tyllwr.
10. Yn olaf, tynnwch linyn drwy'r tyllau yn yr hetiau gorffenedig er mwyn creu baneri bach gwych!




visit twinkl.cymru

# Templed Wyneb





visit twinkl.cymru

# Cennin Pedr Blwch Ŵy

## Bydd angen:

- Un cwpan o focs ŵy
- Glud PVA
- Siswrn
- Paent oren neu felyn
- Brwshys paent
- Cerdyn gwyrdd neu felyn
- Templed cennin Pedr




## Templed cennin Pedr

1. Tynnwch linell o amgylch y templed cennin Pedr a'i dorri allan
2. Paentiwch y cwpan o'r blwch wyau yn felyn neu'n oren, yna gadewch iddo sychu.
3. Gludwch y cwpan ŵy i ganol y blodyn gan defnyddio glud PVA. Yna ychwanegwch y stribed o gerdyn gwyrdd i greu coesyn.
4. Wedi iddo sychu, gellir ei hongian neu ei arddangos ar y wal.








www.twinkl.co.uk


# Tusw o Flodau Papur Sul y Mamau
## Cyfarwyddiadau

1.





Lliwiwch y blodau a rhannau ‘a’ a ‘b’. Peidiwch â lliwio rhan ‘c’.

2.



Plygwch rhan ‘ch’ ar hyd y linell ddotiog.

3.



Plygwch rhan ‘d’ y tu ôl i ran ‘c’ fel y gellwch weld cefn rhan ‘b’ ar yr ochr dde.

4.



Yn olaf plygwch rhan ‘b’ drosodd fel fod y bow ar flaen y tusw.

# Mae mam yn...

wych ardderchog

hapus

arwr

i mi

hwyl

gall

glyfar

hoffus gariadus


garedig

ofalgar

annwyl

anhygoel gan: ____________

# Croesair Mawrth 2021



**Ar Draws :** 7. Penderfyniad mewn cystadleuaeth 8. Offer addysgu - bwrdd du a ..... 10. g 11 ar draws 11. (a 10) Rhaglen ar S4C gyda Trystan ac Emma (7,3,3) 12. Gorchudd gwely 14. 100$^0$C yw hwn i ddŵr 16. Pwy fyddai'n defnyddio 8ad ers talwm? 18. Gwneud nodyn rhag anghofio 20. Un sy'n codi'n gynnar 21. Clîr 24. Yn debyg i dwll tanddaearol 25. Cerbyd gan gwmni o Gynwyd 27. Tref glan-môr yng Ngwynedd 28. Bob tri mis


**I Lawr :** 1. Colli sglein 2. Cymeradwyo 3. Cyfeirio at darged 4. Darn o waith pwytho 5. Chwilfrydig 6. Marciau i ddangos i ba fferm y perthynai dafad 9. Yn ymwneud â rhyfelwyr 13. ee Golwg a'r Cymro 15. Sled 17. Eitem ychwanegol o wisg 19. Swyddog gwarchod 22. Iaith Geltaidd 23. Hanes dychmygol 26. Nid pell

**Atebion Chwefror 2021**

**Ar Draws :** 1. Canolraddol 6. Asti 10. Megan 11. Tanlinellu 12. Eisteddfod 13. Felan 14. Therapydd 16. Ymddangos 18. Sampler 21. Cigysol 23. Henwr 24. Deintyddfa 26. Presenoli 27. Boron 28. Setl 29. Unoliaethwr

**I Lawr :** 1. Cymdeithas 2. Negeswr 3. Lance 4. Actifedd 5. Ofnadwy 7. Sterling 8. Ieuan 9. Milfeddyg 15. Pel droed 17. Sylfaenwr 19. Mynwent 20. Radio Un 21. Crisial 22. Soddgrwth 23. Hapus 25. Tibia



# Celf a Chrefft! (erthygl Stan)

Mae gen i broblem. Sgwn i a fedrwch chi fod o gymorth imi?

Prinder sebon siafio yn siopau'r dref  sy'n fy mhoeni i. Bu'n anhawster ers peth amser bellach. Holi a chael addewid mewn ambell siop y bydden nhw'n archebu peth ar fy nghyfer, ond dim arwydd o'r styllen o sebon yn ymddangos ar y silffoedd.

Un am ddefnyddio sebon siafio fûm i erioed. Fe gefais beiriant trydan gan rywun yn fy nyddiau cynnar o eillio, ond roedd yn gas gen i ei ddefnyddio. Roedd fy wyneb a fy ngwddf yn cosi a doeddwn i ddim yn teimlo fy mod yn cael shêf iawn.

Fe wnes i fy ngorau gyda "foam", ond roeddwn i'n cael anhawster i wasgaru'r ewyn gwyn yn wastad ar draws fy ngwep. Ac, wrth gwrs, roeddwn i'n colli'r wefr a gaiff dyn wrth grafu'r trochion gyda rasal a dŵr poeth.

Beth am dyfu barf, meddech chi? Rhaid imi gyfaddef bu hynny'n demtasiwn ar adegau, yn arbennig gan mai fi ydy'r unig ddyn yn ein teulu estynedig ni sydd heb dyfiant blewog o ryw fath ar ei wyneb.

Yn anffodus, ar ôl diwrnod neu ddau heb siafio rydwi'n teimlo'n fudr ac yn dechrau crafu er nad oes yna fawr ddim blewiach yn ymddangos ar fy ngernau.

Mae yna rai dynion yn d'eud eu bod yn arbed amser yn y bore drwy beidio ag eillio. Yn rhyfedd ddigon, roeddwn i'n edrych yn ddiweddar ar luniau o weithwyr Chwarel Dinorwig yn chwedegau y ganrif ddiwethaf. Doedd yr un ohonyn nhw efo unrhyw dyfiant ar eu hwynebau, ac roedden nhw yn gorfod codi'n gynnar i wynebu'r gwynt deifiol ar lethrau'r mynydd!

Felly, cysylltwch â'r **Bigwn** os medrwch chi fod o gymorth imi.

---

Ydach chi wedi gweld rhaglen deledu o'r enw **The Repair Shop**? Rhaglen heb ffrils ydy' hi sydd yn dangos tîm o weithwyr mewn cwt go grand yn atgyweirio "trysorau teuluol" megis ceffyl pren neu dedi.

Mae hi'n rhaglen mor boblogaidd fel bu i'r BBC ei symud hi o'r prynhawn i'r hwyr.

Yr hyn sydd yn taro rhywun ydy dawn a dyfalbarhad y crefftwyr hyn wrth iddyn nhw ddatgymalu'r petheuach, eu glanhau nhw a'u cael nhw'n edrych fel newydd. Fedr rhywun ond dotio wrth weld y criw mor ddiymhongar wrth eu gwaith.

Does ganddyn nhw ddim celfi cymhleth wrth law- dim ond pethau syml fel sgriwdrifar, morthwyl a brws paent a llwyth o amynedd.

Rydwi'n siwr y byddai ambell fardd sydd â chysylltiad â'r Bigwn – os nad ydy o wedi gweld y rhaglen yn barod  - yn gwerthfawrogi gweld y crefftwyr hyn wrth eu gwaith.

*Stan Lyall*


TE YN Y GRUG

Tŷ Te a Delicatessen
Coronation Buildings,
Lôn Gefn,
Dinbych, Ll16 3TE
deli@teynygrug.co.uk

01745 816576

CATalyst Systems - 01745 816611
enquiries@catsystems.co.uk
Cymraeg

Cyfrifaduron a Gliniadur (Trwsio a Gwerthu)
Sganwyr llaw  -  Systemau CCTV
Lloeren a hwb ar systemau rhyngrwyd 4G
Wi-Fi Adeilad i Adeilad    www.catsatwales.co.uk
Unit 15B Stad Colomendy, Dinbych LL16 5TA

# Priodas Yn  Y Fron Gan Mlynedd yn ôl

*Dyma gyfieithiad o adroddiad a ymddangosodd yn y **Free Press** gan mlynedd yn ôl. Diolch i Mair, gweddw'r diweddar Barch. Meirion Lloyd Davies am y wybodaeth a'r llun.*

Yng Nghapel Y Fron M. C. Dinbych fore Llun (28 Mawrth 1921) priodwyd Mr. Stephen Davies, mab Mr. a Mrs. David Davies, Panton Hall, a Mrs Mary Adelaide Davies, merch ieuengaf Mr. a Mrs. John Davies, Pennant, Glyndyfrdwy.



*Mr Stephen Davies a Miss Mary Adelaide Davies*

Gweinyddwyd gan y Parch. Evan Jones. Mae'r cwpwl yn boblogaidd a'r briod-ferch ar staff Ysbyty'r Meddwl.

Cyflwynwyd y briod-ferch gan ei brawd hynaf, Mr Thomas Lloyd Davies, Wigan, ac roedd yn gwisgo ffrog *crepe-de-chene* o liw *champagne* gyda het o'r un lliw. Y forwyn oedd nith y briodferch, Miss Daisy Ceridwen Butler, Glyndyfrdwy, a gwisgai hi ffrog sidan *poplin* o liw *champagne* a het yn cydweddu. Ymddiriedwyd dyletswyddau'r gwas priodas i Mr. Evan James Jones, brawd y priodfab.

Cynhaliwyd y brecwast priodas yn Clwyd Café lle cafwyd areithiau a negeseuon yn dymuno'n dda i'r pâr ifanc.

Yn ddiweddarach aethant ar y trên i Wrecsam i dreulio'r prynhawn, ac yno tynnwyd y llun.

**Dymuniadau priodasol i Mr Stephen Davies a Miss Mary Adelaide Davies, Dinbych**

Frodyr a chwiorydd,

Os wnewch chwi ganiatau

I mi gael hanner munyd

I ddyweyd rhyw air neu ddau;

Mae heddyw'n ddydd mawr, pwysig

Yn hanes Steve ac Addie,

Ac wrth adrodd hyn o eiriau

Mae'm calon bron a llamu.

A dyma ninnau gylch y bwrdd,

Yn cwrdd i lawenychu,

A dymunaf bob peth da

I'r ddau sydd wedi eu c'lymu;

Boed oes hir a iechyd da

Mewn cartref tawel clyd

Heb groes na loes i'ch blino byth

Ond heddwch – a gwyn eich byd.

Wel, gobeithio byddwch hapus

Ar ôl cael eich uno ‘nghyd,

Dim rhyw eiriau croes cydrhyngoch-

Byw yn swn sigladau’r cryd,

Ac y byddo’r cwlwm cariad

Am byth o hyd yr un,

Fel dwedodd Steve wrth Addie,

Mai nid da bod dyn ei hun.

Dyma yw nymuniad innau

Wrth derfynu hyn o gân,

Boed eich bywyd yn un dedwydd

Ac yn hapus yng Nghymru lân,

Fel na ddelo dim rhyw rwystrau

I ddatgloi y cwlwm tyn,

Dim ond angau pan y delo

All ei ddatod yn ei rym.

……………………………

Hir oes, heb groes i’w dwyn,

I Steve ac Addie ddymunwn heddyw;

Na ddoed, tra boed y cwlwm,

Ond dedwydd fyd, mewn cartref clyd, ddymunwn.

T. Lloyd Davies, Wigan

Rhieni’r Parchn. Gwynfryn Lloyd Davies, Wrecsam, a Meirion Lloyd Davies, Pwllheli, oedd Mr a Mrs Davies.

Treuliodd Stephen Davies ei oes (gymharol fer) – ag eithrio pan fu’n gwasanaethu yn y Rhyfel Byd Cyntaf – yn Ninbych. Bu farw yn 51 mlwydd oed ym 1948. Bu Mary Adelaide yn byw yn y dref o tua 1914 hyd 1980. Bu farw ym Mhwllheli yn 97 oed ym 1993.







# Cronfa Glyndŵr

Datganiad i'r WasgChwefror 22ain 2021

Mae Cronfa Glyndŵr yr ysgolion Cymraeg wedi lansio apêl ariannol. Gwaith yr ymddiriedolaeth hon, a sefydlwyd yn 1963, yw dosbarthu grantiau i gyclhoedd meithrin, ysgolion ac unrhyw fudiadau eraill sy'n hyrwyddo addysg Gymraeg. Yn bennaf, dyfernir grantiau ar gyfer adnoddau, gwaith hyrwyddo a darparu cyfleoedd i gyfoethogi profiad plant a phobl ifanc o'r Gymraeg.

Yn sgil pandemig COVID-19, y mae'r Gronfa wedi cyrraedd croesffordd lle mae cyfanswm y ceisiadau yn fwy na'r incwm mae'r Gronfa yn ei chodi yn flynyddol. Bu'n flwyddyn anodd iawn i gylchoedd meithrin ac ysgolion ac mae hynny wedi'i adlewyrchu yn y ceisiadau y mae'r Gronfa wedi'u derbyn.

Dywed Cadeirydd y Gronfa, Catrin Stevens, "Yn anffodus mae 2020-21 wedi bod yn flwyddyn heriol i addysg Gymraeg gyda chylchoedd meithrin dan warchae a mudiadau iaiath dan staren. Er gwaetha'r anawsterau, maent yn benderfynol o ddal ati. Diffyg adnoddau sy'n eu llesteirio. Ac o'r herwydd, mae wedi bod yn flwyddyn heriol i'r Gronfa hithau, gyda galwadau a gofynion yn llawer mwy niferus ac yn uwch nag yn y gorffennol. Yn wir, mae'n argyfwng, ac nid ydym bellach yn gallu ymateb i bob cais am gymorth er mor deilwng ydyw."

Gwneir yr apêl yn enw Llywydd Anrhydeddus y Gronfa, sef Cennard Davies, ac mae'n agored tan 30 Ebrill. Am fanylion pellach, dylid cysylltu â Mrs Catrin Stevens, Cadeirydd ar:

Ff: 01792893410 neu E: Catrin stevens@outlook.com

Gellir cael mwy o wybodaeth am y Gronfa trwy edrych ar http://www.cronfaglyndwr.cymru

# Y grantiau'n gwneud gwahaniaeth yn ein hardal ni...

CM Bae Cinmel (marchnata)

"Braf yw gallu adrodd yn ôl y bu i'r cyllid ar gyfer y posteri a phamffledi fod yn hynod werthfawr. Cynhaliwyd bore agored a daeth 7 plentyn newydd. Cafwyd 7 plentyn ar lyfrau'r cylch gyda 2 arall i gychwyn yn yr wythnos ganlynol. Felly mae'r marchnata wedi gweithio!"



# Eisteddfod T

**O'R TRADDODIADOL I TIKTOK: YR URDD YN DATGELU TREFNIADAU EISTEDDFOD T 2021**

"Cymerwch eich sedd ar y soffa, tawelwch eich ffôn, a rhowch bob chwarae teg i'r cystadleuydd nesa' – mae **Eisteddfod T** yn ei ôl!"

Yn giamstar ar ganu neu ddweud jôc, yn feistr *lip-sync* neu'n hoff o ddynwared enwogion? O'r traddodiadol i TikTok, mae'r Urdd am gynnal gŵyl ddigidol yn ystod hanner tymor y Sulgwyn am yr ail flwyddyn yn olynol, ac mae Eisteddfod T am fod yn "fwy arbrofol, blaengar a chyffrous nac erioed o'r blaen!"

Denwyd 6,000 o blant a phobl ifanc i gystadlu yn Eisteddfod T y llynedd. Ond eleni, mae'r Urdd yn anelu at gynnal Eisteddfod T fwy arloesol fyth drwy gynnwys mwy o gystadlaethau ac elfennau newydd er mwyn cynnig profiadau unigryw i holl blant a phobl ifanc Cymru, eu hathrawon a'u teuluoedd. O wrando ar gigs o'r gegin, dysgu sut i goginio bwyd stryd a gwylio perfformiadau gwreiddiol gan rai o berfformwyr ifanc mwyaf blaenllaw'r sîn – bydd rhywbeth i bawb yn Eisteddfod T.

Mae Rhestr Testunau 2021 a chyfarwyddiadau ar sut i gystadlu bellach ar gael yma, a chofrestru i gystadlu yn agor ar Fawrth y 1af. Bydd disgwyl i gystadleuwyr gyflwyno gwaith cyfansoddi, fideos o berfformiadau a lluniau o'u gweithiau creadigol o flaen llaw, cyn i'r rowndiau terfynol gael eu darlledu mewn cyfres o raglenni arbennig ar S4C a BBC Radio Cymru dros bum niwrnod, rhwng dydd Llun, 31 Mai a Gwener, 4 Mehefin 2021.

Wrth groesawu'r cyhoeddiad, meddai **Eluned Morgan, Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg**: "Yn amlwg mae'n siom na all Eisteddfod yr Urdd ddigwydd fel arfer unwaith eto eleni. Ond mae'n rhaid llongyfarch yr Urdd ar fod yn arloesol a threfnu Eisteddfod T arall yn lle'r ŵyl arferol – mae'r mudiad yn sicrhau fod ein plant a phobl ifanc yn parhau i ddathlu ein hiaith a'n diwylliant byw, a hynny er gwaethaf cyfyngiadau Covid-19.

"Bu i Eisteddfod T lwyddo i ddenu nifer o gystadleuwyr newydd llynedd, ac edrychwn ymlaen at weld rhai o'r cystadlaethau newydd a hwyliog hyn yn cael eu hymgorffori o fewn yr Eisteddfod draddodiadol yn y dyfodol."

"Mi ydan ni'n benderfynol o gynnal Eisteddfod T fwy arbrofol, arloesol a chyffrous nac erioed o'r blaen," meddai **Cyfarwyddwr yr Eisteddfod, Siân Eirian**. "Dyma gyfle i feithrin ac arddangos talent o bob math, o gantorion a llenorion i sêr TikTok y dyfodol.

"Yn ogystal â'r cystadlaethau mwy traddodiadol fel llefaru neu'r alaw werin, mae modd i unigolion, grwpiau mewn 'swigod' a theuluoedd gymryd rhan mewn cystadlaethau mwy anffurfiol. Mae yna hyd yn oed cystadlaethau i athrawon ac aelodau hŷn o'r Urdd!

"Rydan ni'n gobeithio bydd yr arlwy amrywiol yn plesio ein Heisteddfodwyr arferol, ond yn denu llawer o'r newydd, hefyd. Hoffwn ddiolch i Lywodraeth Cymru am eu cefnogaeth i Eisteddfod T, i'n partneriaid darlledu - S4C a BBC Radio Cymru - am eu parodrwydd i ddarlledu'r ŵyl unwaith eto eleni, ac i gwmni teledu AVANTI am eu creadigrwydd."

Meddai **Amanda Rees, Cyfarwyddwr Creadigol Cynnwys S4C**: "Does dim amheuaeth fod Eisteddfod T wedi codi calonnau a dod â hwyl i gannoedd o deuluoedd yn ystod cyfnod anodd a thywyll y llynedd. Mae S4C yn falch iawn o gydweithio gydag Urdd Gobaith Cymru eto, gan ddarlledu mwy o oriau eleni yn llinol ac ar draws ein platfformau digidol drwy gydol yr wythnos. Ry'n ni'n edrych ymlaen yn fawr at arddangos talentau plant a phobl ifanc Cymru yn ogystal â mamau a thadau, a neiniau a theidiau! Mae'n bleser bod yn rhan o gyffro Eisteddfod T eto eleni gan ddarlledu holl fwrlwm yr ŵyl yn fyw o gartrefi teuluoedd ledled Cymru."

Dywed **Rhuanedd Richards, Golygydd BBC Radio Cymru a Cymru Fyw**: "Mae hi mor bwysig fod ein plant a'n pobl ifanc yn parhau i gael llwyfan cenedlaethol er mwyn dangos eu doniau a'u sgiliau ac rydym yn falch iawn o bartneru unwaith eto gyda'r Urdd ac agor y tonfeddi a'n gwasanaethau i gystadleuwyr Eisteddfod T. Edrychwn ymlaen at wledd o leisiau dros wyliau'r Sulgwyn ar Radio Cymru a Radio Cymru 2 fydd yn sicr o ddod â gwefr a mwynhad i'n gwrandawyr. Mae BBC Cymru Fyw hefyd yn falch i fod yn gynnig cartref ar gyfer nifer o'r cystadlaethau a gwybodaeth am yr ŵyl."














# Gwefr heb Wifrau Cwmulus

www.gwefrhebwifrau.cymru

https://cwmulus.org/

Dilynwch ni ar




*Pwynt gwefru lleol*

**Pam nad ydych chi wedi buddsoddi mewn Cerbyd Trydan Batri cyn hyn?** oedd teitl darlith ar-lein Ian Cook yn ddiweddar.  Dim ond Cerbydau Trydan Batri mae Ian a'i wraig wedi eu perchen ers 2011 ac maen nhw wedi teithio tua 200,000 o filltiroedd heb brofi batri gwag un waith.  Rhestrodd Ian brif resymau'r cyhoedd am beidio â phrynu Cerbydau Trydan Batri, gan nodi yn arbennig y gost, a'r gofid am brinder pwyntiau gwefru.  Eglurodd fod 'na grantiau ar gael, mae'r gyfradd dreth yn 0%, mae pris trydan yn isel o'i gymharu â phris tanwydd hylif, ac mae'r costau cynnal a chadw yn is – prin bod y breciau yn cael eu defnyddio o gwbl.  Mae nifer y pwyntiau gwefru ar hyd a lled y wlad yn cynyddu, fel y gwelir yn y llun, ac mae llawer mwy ohonyn nhw nag sydd o orsafoedd petrol.  Yn y dyfodol, efallai bydd hi'n bosib i wefru car yn ddigyswllt, wrth yrru dros bwynt gwefru ar wyneb y ffordd, wrth oleuadau traffig er enghraifft, neu ar lôn arbennig ar y draffordd.

Nododd Ian fod Cerbydau Trydan Batri yn ddibynadwy iawn a bod y manteision i iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd yn amlwg. Mae profion yn cael eu cynnal ar hyn o bryd ar ddefnyddio batri fel storfa drydan, a dychwelyd y trydan i'r grid cenedlaethol pan fydd y car yn segur.  Mae'n debygol bydd gwerthiant Cerbydau Trydan Batri yn cynyddu yn aruthrol yn y dyfodol agos, yn arbennig gan fod y llywodraeth wedi pennu'r flwyddyn 2030 fel yr adeg i orffen cynhyrchu cerbydau tanwydd ffosil.

Mae Mike Farnworth o Lerpwl yn gyfaill brwdfrydig i'r Amgueddfa ac mae wedi cyflwyno darlithiau i ni ar fwy nag un achlysur.  'Cantre'r Gwaelod, yr Atlantis Cymreig' oedd testun ei sgwrs ar-lein y tro yma a chawsom ddarlith ddisgyrsiol, ddiddorol iawn ganddo.  Awgrymodd fod hanes Cantre'r Gwaelod yn rhan o gof y genedl, a nododd y cyfeiriad cyntaf ato yn "Boddi Maes Gwyddno" yn Llyfr Du Caerfyrddin, llawysgrif a gedwir yn y Llyfrgell Genedlaethol, ac wedyn yn Trioedd Ynys Prydein.  Erbyn hyn, mae'r hanes yn chwedl genedlaethol yn darlunio sut y boddwyd tir isel y Cantre gan ddŵr Bae Ceredigion, oherwydd bod Seithenyn wedi anghofio cau clwydi'r môr.  Mae hwn yn bwnc o bwysigrwydd enbyd i ni heddiw wrth i ni sylweddoli bod lefel y môr yn codi wrth i'r iâ ar y pegynau doddi yn ganlyniad i gynhesu byd-eang.  Cyfeiriodd Mike yn arbennig at sefyllfa pentref Fairbourne, ar dir isel rhwng Afon Mawddach a Bae Ceredigion, lle mae'r cyngor lleol wedi gorfod trwsio wal y môr ar ôl pob storom ac wedi penderfynu peidio â gwneud ar ôl 2050.  Fydd Fairbourne yn dioddef yr un trychineb â Chantre'r Gwaelod?

Anfonwyd y radio pen yma at yr Amgueddfa yn ddiweddar gan gefnogwr o Lerpwl.  Mae'n Radio FM a phen Supersonic SC-21P yn un, gyda chlustffonau, ac mae'n defnyddio dau fatri LR44.  Mae'n bosib ei raglennu i dderbyn nifer o orsafoedd radio, ac i ysgrifennu hefyd!

Dyma'r darlithiau nesaf yng nghyfres ar-lein yr Amgueddfa ynghyd â Cwmulus:

Ar 26.03.2021, bydd Pegi Talfryn yn cyflwyno darlith Gymraeg ar **Santesau Celtaidd – y fam, y forwyn a'r ffeminist**.  Bydd yn trafod hanes rhai o'r prif santesau Celtaidd, gan ddefnyddio elfen gref o chwedleua a dehongliadau newydd o'r hen straeon.



*Pen Radio*


Ar 23.04.2021, bydd Lesley Bordoli yn sôn am **Sgowtio Sans Frontieres** ac yn darlunio hanes y Sgowtiaid ers eu sefydlu yn 1907, gyda'r pwyslais ar weithgareddau awyr agored, at Mudiad Sgowtio rhyngwladol heddiw, a'r pwyslais ar gyflwyno sgiliau ar gyfer y byd cyfoes.

Ar 21.05.2021, bydd Grant Peisley, cyfarwyddwr Ynni Cymunedol Cymru a sylfaenydd Datblygiadau Egni Gwledig, yn sôn am **Gweithredu Cymunedol ar Newid yn yr Hinsawdd**. Bydd yn disgrifio prosiectau ynni cymunedol yng ngogledd-orllewin Cymru ac yn edrych sut mae'r grwpiau cymunedol hyn yn troi eu sylw at weithredu yn erbyn newid yn yr hinsawdd.

Croeso cynnes i bawb. Bydd y sgyrsiau yn cychwyn am 7.00 y.h. a rhaid cofrestru o flaen llaw - edrychwch ar y gwefannau uchod neu ar dudalen Facebook Gwefr heb Wifrau am fanylion.













# Merched y Wawr, Dinbych a'r Cylch

Mae ceisio rhoi newyddion at ei gilydd ar gyfer papur bro unrhyw adeg ddim yn hawdd – ond yn fwy anodd y mis yma gan ein bod wedi ein llorio gyda'r newyddion trist a ddaeth ar fore Chwefror 3ydd fod Lis Morris, un o'n haelodau mwyaf cyfeillgar a bywiog wedi ein gadael.  Bydd bwlch enfawr ar ei hôl, ac ar ran Cangen Dinbych a'r Cylch o Ferched y Wawr - estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf gydag Elfed, y meibion a'u teuluoedd, a'r llu ffrindiau oedd gan Lis yn y dalgylch ac ymhellach.

Mae rhan o deyrnged Nic Parri ar ran Cwmni Drama Rhuthun a welwyd ar Facebook yn crynhoi Lis yn berffaith:

> *"Peidiwch meddwl eich bod chi'n ddigri; neith o byth weithio os 'da chi'n meddwl eich bod chi'n ddigri".  Dyna oedd cyngor George Abbott, un o gyfarwyddwyr llwyfan mwyaf byd y ddrama yn America .'Doedd Lis Morris ddim yn meddwl ei bod hi'n ddigri, ond mi roedd hi. Roedd hi'n naturiol ddigri. Gyda'r symudiad corfforol lleiaf, yr hanner edrychiad hwnnw, y marc cwestiwn hwnnw y gallai ei gyfleu efo'i gwyneb gallai wneud i gynulleidfa chwerthin yn afreolus.Pan fydd y llen yn disgyn o'r diwedd ar ddrama cyfnod y pandemic anhygoel, anifyr hwn, pan gawn ni ddychwelyd i gyfoeth cwmni'n gilydd, mae'n annodd dychmygu y gwnawn hynny heb Lis. Wrth inni ail afael, gan gynnwys yn ein gilydd, gwn y bydd pob un ohonom yn gofyn, wrth edrych ar ein gilydd ac heb angen yngan yr un gair, sut yn y byd y gadawodd un mor fechan fwlch mor anferth ar ei hôl?*

Mae'n anodd credu fod blwyddyn wedi mynd ers i ni, fel Merched y Wawr Dinbych a'r Cylch, a nifer o gymdeithasau tebyg gynnal y cyfarfodydd misol "yn y byw".  Mae'r cyfnod wedi bod yn heriol iawn i nifer o gymdeithasau ac unigolion trwy'r wlad i gyd, ond gyda dyfodiad y brechlyn, gobeithio y gwneith y cyfnod hyn gilio ac y byddwn yn gallu symud ymlaen i rhyw fath o normalrwydd newydd.  Pwy feddylia flwyddyn yn ol y buasai y gair "Zoom" yn rhan o'n geirfa dyddiol?  Mae'r mudiad yn Genedlaethol wedi bod yn cynnal gweithgareddau amrywiol i ni allu ymuno â nhw os oeddem yn dymuno.  Bu'r Wyl Genedlaethol, a'r Ffair Aeaf yn rhithiol hefyd.

Mae nifer o aelodau ein cangen ni wedi bod yn cyfarfod yn rhithiol dros y misoedd dwytha hefyd, ac yn hynod ddiolchgar i'r swyddogion am drefnu hyn.  Rydym wedi cael noson cwis, dathlu'r Nadolig gyda Caryl Parry-Jones yn rhithiol, gyda Caryl yn hel atgofion a straeon am y nadoligau pan roedd hi yn blentyn, gyda nifer ohonom ni yn gallu uniaethu hefo hi a'i hatgofion.  Ym mis Ionawr cawsom noson arall yng nghwmni Cadi Mars Jones yn son am ei gwaith, a'i bod yn fyfyrwraig yng Nghaerdydd ar hyn o bryd ond ar gyfnod allan yn gweithio yn y Bala yn creu cacennau ar gyfer yr archfachnadoedd. Mae ganddi dudalen ar Facebook o'r enw Blas, gyda ychydig o syniadau ar gyfer creu danteithion sawrus a melys.

Edrychwn ymlaen i ddal i gyfarfod a chadw'r cysylltiad hefo'n haelodau, boed yn rhithiol neu fel arall, ac rydym yn hynod ddiolchgar I'r swyddogion am drefnu'r nosweithiau yma i ni.  Cofiwch y gallwch ddal ymuno hefo Merched y Wawr os ydych yn dymuno trwy gysylltu hefo unrhyw un o'r Swyddogion.

**DIOGELWN**

y cynllun diogelu enwau tai

Hoffwn dynnu sylw eich darllenwyr at gynllun newydd o'r enw DIOGELWN y mae Cymdeithas yr Iaith wedi'i lansio.

Bwriad y cynllun yw diogelu enwau Cymraeg ar dai er mwyn cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r syniad sydd wrth wraidd y cynllun yn un syml iawn, ac yn berthnasol i bawb sy'n byw yng Nghymru ac sy'n berchen ar dŷ ag enw Cymraeg.

- **Os ydych ar fin gwerthu eich tŷ:** gallwch ofyn i'ch cyfreithiwr gynnwys cymal penodol yn y cytundeb gwerthu er mwyn atal prynwyr a'u holynwyr mewn teitl rhag newid yr enw yn y dyfodol.
- **Os nad ydych yn bwriadu gwerthu'ch tŷ:** gallwch ddiogelu'r enw trwy lofnodi a chofrestru cytundeb (gyda chymorth eich cyfreithiwr) er mwyn atal prynwyr neu gymyndderbynwyr o dan eich Ewyllys chi a'u holynwyr mewn teitl rhag newid yr enw yn y dyfodol.

Mae'r dogfennau perthnasol (sydd wedi'u paratoi gan ein cyfreithwyr) ar gael ar wefan y Gymdeithas i'w lawrlwytho. Ewch i cymdeithas.cymru/diogelwn (neu gallwch ffonio 01970-624501 a gallwn anfon y dogfennau atoch trwy'r post).

Cofion gorau

Mabli Siriol


HUW VAUGHAN JONES

Arlunydd,Cartwnydd


Dewis da o luniau du a gwyn a lliw ar gael am bris rhesymol.Adeiladau, anifeiliaid,tractorau, ceir,blodau, coed a.y.b.Neu beth am lun arbennig o'ch dewis chi ar gyfer y Nadolig. Lluniau o bob maint.

Cysylltwch â Huw ar

01745 812184

# Llyfr Du Cymru Fydd

## “Cryno, heriol, cyraeddadwy!” – cyfrol amserol yn rhannu syniadau iwtopaidd ar y Gymru fydd




“Dwi’m yn disgwyl i bawb gytuno â phopeth yn y pamffled – i rai fydd pethau'n rhy radical, i eraill ddim yn digon radical,” meddai Llywelyn ap Gwilym am ei gyfrol ddwyieithog newydd a gyhoeddwyd yr wythnos hon, sef *Llyfr Du Cymru Fydd / The Black Book of the New Wales* (Y Lolfa).

Mae trefnydd ralïau AUOB Cymru a ddenodd filoedd o gefnogwyr cyn cyfnod Covid-19 wedi mynd ati i ysgrifennu ei weledigaeth o Gymru annibynnol. Mae’r awdur Llywelyn ap Gwilym hefyd ar Bwyllgor Canolog YesCymru. Meddai:

“Ers i mi gofio, dwi wedi cefnogi’r syniad o Annibyniaeth, ond mewn modd difeddwl. Ers cael plant a symud yn ôl i Gymru rwyf wedi meddwl yn ddyfnach am wleidyddiaeth, economeg a chymdeithaseg: meddwl mwy am y ‘pam’. Wrth ysgrifennu *Llyfr Du Cymru Fydd* dechreuais feddwl y gallwn helpu ysgogi’r ddisgwrs.”

Mae’r llyfr yn archwilio beth fydd Cymru annibynnol, ac ysgrifennwyd mewn ysbryd meddwl iwtopaidd: ei phwrpas yw ceisio cwestiynu beth all fod. Mae rhai o’r syniadau a gyflwynir yn ymadawiad radicalaidd o’r *status quo*, tra bod eraill yn prysur gael eu mabwysiadu fel meddwl orthodocs y chwith. Hefyd, mae rhai syniadau eisoes ar waith gan sefydliadau neu gyrff gwahanol neu wedi bodoli mewn cyfnodau gwahanol, tra bod eraill yn syniadau newydd sbon sy’n cael eu rhoi ar brawf.

Disgrifiwyd y gyfrol fel un "Gryno, heriol, gyraeddadwy!... Syniadau radical am y fath o Gymru gall Cymru fod... Darllenwch a gweithredwch" gan Siôn Jobbins, Cadeirydd YesCymru.

Mae’n gyfrol amserol, gyda’r canran o bobl yng Nghymru sy’n cefnogi Annibyniaeth wedi bron â threblu dros y chwe mlynedd ddiwethaf o 12% yn 2014 i 35% yn 2020. Mae’r ymgyrch Annibyniaeth i Gymru yn prysur gryfhau, gydag aelodaeth YesCymru yn cynyddu o 2,500 i dros 17,000 yn ystod 2020, a nawr yn derbyn sylw cyson yn y wasg Brydeinig ynghyd â dramor.

“Rwy’n gobeithio bydd y llyfr yn helpu symud y sgwrs ymlaen fel bod mwy o bobl yn trafod beth yw ein gwerthoedd, pa fath o gymdeithas yr ydym am fyw ynddo, a sut; mai Annibyniaeth yw’r llwybr mwyaf realistig ar gyfer cyflawni’r newidiadau yma. Byddai’n drasiedi colli’r cyfle i sicrhau dyfodol gwell i bob un ohonom sy’n galw Cymru’n gartref ac, ar ôl i ni ennill annibyniaeth, ail-greu anghydraddoldeb ac annhegwch presennol y DU. *Llyfr Du Cymru Fydd* yw fy nghyfraniad at ddyfodol gwell.”

**Bydd *Llyfr Du Cymru Fydd* gan Llywelyn ap Gwilym ar gael erbyn 1af Mawrth (£4.99, Y Lolfa).**

**ISBN :** 9781800990401

**Canmoliaeth**

“Cryno, heriol, cyraeddadwy! Syniadau radical am y fath o Gymru gall Gymru fod – ond mae angen annibyniaeth ac egni annibynnol er mwyn datgloi a rhyddhau’r syniadau. Darllenwch a Gweithredwch. Gwell Cymru Dda na Phrydain Fawr.”

- Siôn T. Jobbins, Cadeirydd Yes Cymru

“[Mae] *Llyfr Du Cymru Fydd* gan Llywelyn ap Gwilym yn gyfraniad hollbwysig i’r weledigaeth fydd yn rhyddhau Cymru o’r wladwriaeth Brydeinig bydredig.”

- Sam Coates, Undod

“… a cracking piece of work. Very clear thinking. Good, sound values base. I love the references you draw on – some of my favourites – Raymond Williams, Gramsci, Bookchin, Bell Hook, Malcolm X, Maya Angelou, the Preston stuff and Mondragon. And the way you bring it all the thinking together… Your book outlines why it is not tenable for people in Wales to carry on as we are and offers an inclusive vision of real independence. For the Indy curious, this is a must-read.”

- Leanne Wood, Plaid Cymru

“A small book with big ideas! A welcome addition to the independence debate.”

- Cian Ciarán, Cerddor (Super Furry Animals), cyfansoddwr ac Is-Gadeirydd YesCymru

“Llywelyn ap Gwilym’s The Black Book of the New Wales doesn’t claim to have all the answers, it weaves together an empowering series of concepts and initiatives that are ready and willing to form new institutions and structures.”

- Ben Gwalchmai, sefydlwr Llafur dros Gymru Annibynnol

“An exciting blueprint for building a better society.”

- Dan Evans, Desolation Radio


# Rhagflas o'r rhifyn nesaf

Yn y rhifyn nesaf bydd erthygl am deithiau cerdded yn ardal Dinbych.
Dyma fap yn dangos mor gyfoethog yw'r ardal o lwybrau gyda hawl tramwy. Bydd oriel o luniau o rai o'r llwybrau yn y rhifyn a dyma un neu ddau fel tamaid i aros pryd. Diolch i Cledwyn Jones am ganiatâd i gyhoeddi rhai ohonynt.









# Peidiwch a choelio’r e-byst ffug

Un o’r pynciau pwysicaf yr ydym yn rhoi hyfforddiant yw diogelwch ar y We – pwnc sy’n cael ei ystyried yn allweddol wrth helpu pobl i fagu hyder ar y We. Mae’r cyfnod pandemig wedi denu twyllwyr o bob math i gymryd mantais ar bobl hŷn yn arbennig. Ym Mhrydain yn 2019-20, llwyddodd twyllwyr i ddwyn £5.4 miliwn gan bobl ar y We a dyma faes sy’n profi’n ffrwythlon i ddrwgweithredwyr oherwydd ein bod yn gwneud mwy a mwy ar y We erbyn hyn. Yn union fel dysgu gyrru, mae’n bwysig eich bod yn dilyn arfer da ar y We – mae’r ffaith eich bod yn gallu gyrru car yn agor posibiliadau i chi fentro i ble bynnag y mynnoch ond mae’n rhaid dilyn y rheolau a bod yn wyliadwrus rhag y peryglon. Dyna’r union feddylfryd sydd angen wrth fynd ar y We er mwyn bod yn ddiogel. Mae’n agor byd newydd cyffrous i chi ond rhaid bod yn ddiogel oherwydd mae profiadau gwael yn gallu bod yn glec i hyder a’r peth olaf yr ydych chi eisiau ydi hynny. Beth sy’n gyffredin iawn ydi e-byst ffug neu phishing yn Saesneg. Os oes gennych chi gyfrif e-bost, mae’n fwy na thebyg eich bod wedi derbyn un o’r rhain yn sicr. Beth ydyn nhw? E-byst ydynt fel arfer yn ffugio ei bod wedi dod gan eich banc, BT, Amazon, o’r swyddfa dreth, gan y gwasanaeth iechyd, Ebay, paypal ac yn y blaen ac yn y blaen. Y ffordd fwyaf cyfleus ag hawdd yw i leidr ddwyn eich pres yw i chi wirfoddoli eich pres iddynt neu roi’r ‘allwedd’ iddynt. Beth maent yn chwilio amdano yn fama yw eich manylion banc neu fanylion personol. Os y cewch chi e-byst gan eich banc, sy’n gofyn am ddiweddaru eich manylion personol neu’n gofyn i chi glicio ar y ddolen o fewn yr e-byst, peidiwch da chi a gwrando arnynt. Mae’r banciau i gyd yn rhybuddio eu bod byth yn cysylltu gyda chi trwy e-byst yn gofyn am fanylion personol. Os ydych wedi derbyn e-byst gan ‘Amazon’ er enghraifft yn dweud fod pecyn ar ei ffordd i rywun arall, y cyngor gorau yma yw i fynd yn uniongyrchol at wefan fel Amazon a logio fewn yn fanno, a wedyn mi fedrwch chi weld os oes yna eitem wedi cael ei brynu gan rywun arall. Dilynwch y cyfarwyddyd hynny ymhob achos, ac os mai Ebay neu fanc sy’n cysylltu, logiwch fewn trwy’r ffordd arferol, ac nid trwy glicio ar ddolen mewn e-byst. Beth sydd wedi dod yn gyffredin yn y flwyddyn ddiwethaf yw e-byst ffug yn honni ei bod yn dod o’r Gwasanaeth Iechyd yn cynnig brechlyn neu gysylltu ynghylch profi canfod ag olrhain. Peidiwch a chymryd sylw ar ddim byd sy’n dod trwy e-byst yn unig! Cyngor arall pwysig yma yw i sicrhau fod ganddoch gyfrineiriau sy’n ddiogel. Yn aml na pheidio, mae gennym lawer o gyfrifon gwahanol efo Tesco, BT, EE, Next ac yn y blaen ac mae’n hawdd anghofio cyfrineiriau gwahanol, a’r demtasiwn yw i gadw’r un cyfrinair at bob un. Ond peidiwch a gwneud hynny oherwydd os ydi haciwr yn cael mynediad i un o’ch cyfrifon, yna, mae’n agor y drws i’r cyfrifon i gyd. Ceisiwch amrywio ar y cyfrinair a chael rhif, llythyren fawr, symbol, dau air cwbl ddigyswllt, geiriau Cymraeg o fewn y cyfrinair. Ewch i howsecureismypassword.net i wirio os ydy eich cyfrinair yn ddigon diogel. Peidiwch a phoeni, mae’r wefan yma yn gwbl ddiogel! Wrth brynu nwyddau ar y We, mae’n bwysig gwirio os oes gan y wefan honno dystysgrif https:// neu os yw’r symbol clo yn bresennol, mae hwn fel arfer wedi ei leoli o flaen cyfeiriad y wefan fel arfer ar dop y ffenest y porwr. Mae’r rhain yn angenrheidiol i nodi fod y safle yn ddiogel i drosglwyddo arian arni. Cofiwch hefyd sicrhau fod yna feddalwedd gwrth-firws ar eich cyfrifiadur – mae’r rhain i’w cael am ddim, felly peidiwch a chymryd yr abwyd a thalu am un, na thalu am fersiwn arall mwy ‘cynhwysfawr’. Felly, ydi, mae yna beryglon yn bodoli, fel ymhob dim ac mae’n bwysig nodi fod y rhan fwyaf o dwyll yn parhau i ddigwydd dros y ffôn. Ond yr hyn sy’n bwysig yw os ydych ymwybodol o’r peryglon ar y We, mae’r syniad o fynd ar y we yn llawer llai pryderus. Am ragor o wybodaeth ewch chi https://wales.getsafeonline.org/ Byddwch yn ddiogel ar y We, byddwch yn ofalus ac fe fydd y profiad wedyn yn gwbl bleserus. Yn y bôn, cofiwch fod yn wyliadwrus ar y We – a pheidio gwneud penderfyniadau byrbwyll. Os ydych chi’n rhan o fudiad neu mewn oed neu’n gweithio gyda phobl mewn oed ac angen cymorth digidol, mae croeso i chi e-bostio am gymorth, hyfforddiant a chyngor Cymunedau.Digidol@wales.coop

# Categoreiddio Ysgolion

## Categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg

Annwyl oll

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar ddogfen ganllaw sydd a'r nod o:

- gyflwyno trefniadau newydd ar gyfer categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol
- darparu fframwaith cenedlaethol clir a chyson ar gyfer categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg
- cefnogi awdurdodau lleol ac ysgolion i gyfathrebu i rieni/gofalwyr y mathau o ysgolion a darpariaeth cyfrwng Cymraeg sydd ar gael

Mae'r ymgynghoriad yma yn berthnasol i bob ysgol a daw i ben ar y 21 Mawrth 2021.

Gallwch ddod o hyd i'r ymgynghoriad ynghyd a gwybodaeth ynglŷn a sut i ymateb gan ddilyn y ddolen isod.

https://llyw.cymru/categoreiddio-ysgolion-yn-ol-y-ddarpariaeth-cyfrwng-cymraeg?_ga=2.67309905.1339034050.1610959935-714772333.1591015619

Carwyn Edwards

Swyddog Moderneiddio Addysg

Gwasanaethau Addysg a Phlant

Cyngor Sir Ddinbych

01824 712043

07775 110989

carwyn.edwards@sirddinbych.gov.uk

www.sirddinbych.gov.uk

Addysg yn Sir Ddinbych - Blog

Newyddlen

# Clwb Rygbi Dinbych

## William Pierce Jones

Gyda thristwch rhaid cyhoeddi marwolaeth un arall o hoelion wyth y Clwb, sef Will Pierce Jones. Daeth y newyddion yn sioc fawr i'r rhai a oedd yn adnabod Will neu a oedd wedi'i weld yn ddiweddar yn mynd â'i gi bach ffyddlon Kitty am dro o amgylch y dref. Roedd yn edrych mor dda ac iach, a hyd yn oed yn ystod y pandemig roedd yn ceisio byw bywyd i'r eithaf. Mae llawer yn cofio Will o ddyddiau cynnar y Clwb fel mewnwr cadarn ac ymroddedig, a fwynhaodd ei rygbi ac a oedd yn rhan annatod o fywyd cymdeithasol unrhyw dîm y bu'n rhan ohono. Ar ôl ymddeol o chwarae, cymerodd Will y chwiban a daeth yn ddyfarnwr uchel ei barch yng Ngogledd Cymru. ("Poacher turned Gamekeeper" ydy'r dywediad Saesneg.) Roedd Will a Jean yn aelodau pwysig a gwerthfawr o daith dramor gyntaf y Clwb i New Mexico ym 1990. Er mwyn paratoi ar gyfer y daith, roedd y cwpl yn allweddol mewn llawer o'r digwyddiadau codi arian a chymdeithasol; roeddent bob amser yn awyddus i gymryd rhan - nid oedd sefyll ar yr ymylon yn opsiwn i'r naill na'r llall. Roedd Will yn gwmni da ac yn llawn hwyl; roedd ei chwerthiniad heintus yn denu eraill tuag ato. Roedd rhywun bob amser yn gwybod ble roedd yn sefyll gyda Will; waeth beth oedd y cwmni, roedd Will bob amser yr un fath.



*William Pierce Jones*

Er gwaethaf cyfraniad Will mewn gwahanol glybiau chwaraeon yn y dref (Criced a Golff yn bennaf, a phêldroed yn fwy diweddar), roedd bywyd teuluol yn hollbwysig i Will. Roedd y teulu yno bob amser i helpu ei gilydd. Roedd Will a Jean fel un; gwnaethant gymaint gyda'i gilydd. Bu'n cefnogi Jean mewn llawer o'i phrosiectau, gan gynnwys pan wnaeth Jean gymaint o'r gwaith o fewn ein Clwb. Byddai'r Clwb wedi bod yn lle llawer tlotach heb gyfraniad y ddau ohonynt. Daeth marwolaeth sydyn Will yn ergyd drom i Jean a'r teulu oll. Rydym yn anfon ein cydymdeimlad dwysaf a'n cefnogaeth atynt ar yr adeg anodd hwn. Bendith Duw arnoch i gyd.

*Tegid Phillips*

*Llywydd Clwb Rygbi Dinbych*